

Diweddariad Covid-19 – Rheoli Busnes

Gwybodaeth yn gywir am 12:30pm 03.04.2020

- Os nad yw eich prisiwr yn gallu cyrraedd eich fferm eleni, byddwch yn barod i lunio eich prisiadau eich hun
- Gwnewch hynny nawr. Mae'n haws ar y diwrnod yn hytrach na cheisio cofio pan fo'r cyfrifydd yn gofyn am y wybodaeth yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn
- Trafodwch gyda'ch ysgrifennydd ynglŷn â gweithio o bell a gosodwch y feddalwedd briodol
- Paratowch y wybodaeth angenrheidiol cyn trosglwyddo

Prisiadau I Ebrill a diwedd y flwyddyn ariannol

I nifer ohonoch, daeth y flwyddyn ariannol i ben ddydd Mawrth 31 Mawrth. Dyma'r adeg o'r flwyddyn y byddai eich prisiwr yn dod i mewn i gynnal eich cyfrifiad stoc blynyddol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd hi'n anodd i'r prisiwr ddod i'r fferm eleni, ac efallai y bydd rhai ohonynt yn anfodlon gwneud hynny oherwydd COVID-19. Mewn achosion o'r fath, eich dyletswydd chi fydd cyfrif stoc byw a marw. Felly paratowch.

Os mae'n anodd cyfrif da byw ar y fferm, mae Gwasanaeth Symudiadau Gwartheg Prydain (BCMS) yn ffynhonnell ddefnyddiol. Mae'n rhoi manylion yr holl stoc sydd ar y fferm ar hyn o bryd ynghyd â'u hoedran. Bydd angen i chi gyfrif yr holl stoc byw a marw ar y fferm. Peidiwch ag anghofio mesur y silwair gan fod hynny'n cael ei fethu'n aml.

Os oes angen cymorth arnoch ynglŷn â'r hyn y dylech ei gynnwys yn y gwerthusiad neu angen unrhyw gymorth gydag amcangyfrif y silwair yn y clamp, cysylltwch â'ch ymgynghorydd a bydd yn hapus i'ch cynorthwyo.

Ysgrifenyddion Fferm

Yn yr un modd, mae'n bosibl na fydd ysgrifennydd eich fferm yn gallu ymweld â'r fferm i ymgymryd â gwaith arferol. Os felly, bydd angen i chi ddod o hyd i ffordd wahanol o weithio gydag ef neu hi. Gallai hynny gynnwys:

- Sganio'r holl anfonebau sydd wedi cyrraedd ers ei ymweliad diwethaf a'u hanfon dros e-bost i'r ysgrifennydd. Mae apiau da ar gyfer sganio ar gael ar eich ffôn erbyn hyn a allai hwyluso'r gwaith.
- Opsiwn arall fyddai rhoi'r holl anfonebau'n barod i'r ysgrifennydd eu casglu cyn eu cofnodi o bell. Bydd hyn yn fwy ymarferol i fusnesau mwy. Fodd bynnag, mae'r firws COVID-19 yn gallu cael ei drosglwyddo ar bapur 24 awr yn dilyn cyswllt. Felly'r opsiwn gorau yw parato'i'r anfonebu ar y diwrnod cyn i'r ysgrifennydd ddod i'w casglu.

Paratowyd gan Kite Consulting



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813